TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Hair and Media Make Up Artistry Level 2



Yn gryno

Mae artistiaid colur yn dylunio ac yn gosod colur er mwyn cyfleu ymdeimlad o ddrama p'un ai mewn ffilm, theatr, ffotograff neu fideo cerddoriaeth. Bydd cymhlethdod a math y dyluniad yn amrywio yn dibynnu ar y cynhyrchiad a'r cymeriad ond gall artistiaid colur da gyflawni ystod eang o ymddangosiadau ar draws pob genre a chyfnod.

Gan weithio fel artist colur, byddwch yn gweld nad oes llwybr dilyniant diffiniedig. Mae natur lawrydd y proffesiwn yn golygu y gallwch symud rhwng artist colur dan hyfforddiant, artist colur, prif artist colur a rolau dylunio yn dibynnu ar eich profiad.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddyheadau o fod yn artist colur

... Oes gennych ddiddordeb arbennig mewn theatr neu ffilm

... Ydych chi'n greadigol a gweithgar

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Fel artist colur, rydych chi'n gyfrifol am roi colur ar bobl a steilio gwallt ar gyfer pobl sy'n ymddangos mewn ffilmiau, rhaglenni teledu, sesiynau ffotograff neu ddigwyddiadau byw fel cyngherddau, dramâu neu sioeau ffasiwn. Mae trin gwallt yn chwarae rhan fawr yn y cwrs hwn ac mae'r diwydiant yn cyflogi unigolion amryddawn sy'n gallu rhoi colur ymlaen a steilio gwallt mewn un sesiwn.

Eich swydd fyddai creu'r edrychiad mae'r person ei angen ar gyfer y math o gynhyrchiad neu ddigwyddiad.

Byddwch yn dysgu technegau trin gwallt sylfaenol a sgiliau colur penodol i'r cyfryngau gan gynnwys:

Colur ar gyfer y llwyfan
Heneiddio ar gyfer y llwyfan
Effeithiau arbennig
Lleoliad gwaith
Gwneud wig
Trin gwallt sylfaenol
Defnyddio darnau gwallt
Colur ffasiwn
Colur ffotograffig
Colur cyfnod
Peintio wynebau
Dylunio celf corff
Darparu celf ewinedd

Byddwch yn cael eich asesu trwy aseiniadau ymarferol ac aseiniadau ar thema, portffolio o waith a chwestiynau prawf amlddewis. Ar ôl cwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 2 Trin Gwallt a Cholur y Cyfryngau
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg (os nad ydych wedi ennill gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

I fynd ar y cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch arnoch, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 Priodol YN OGYSTAL Â dawn greadigol neu dystiolaeth o waith celf.

Mae angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn weithgar, yn rhifog a meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar. Byddwch wedi eich lleoli ar y campws a bydd un noson yr wythnos lle gall fod angen i chi fynychu'r coleg tan 6.00pm. Mae profiad gwaith cysylltiedig yn rhan orfodol o'r cwrs ac yn cynnwys lleoliadau gwaith mewn lleoliadau theatr.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 3 mewn Colur Theatrig ar Cyfryngau, cyflogaeth neu addysg bellach.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae cod gwisg ac ymddangosiad yn agwedd bwysig iawn ar y cwrs hwn ac rydym yn gofyn i chi gadw at y canlynol:

Mae'n rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau du synhwyrol yn y salonau
Rhaid i wallt gael ei glymu yn daclus yn ôl o'r wyneb a rhaid gwisgo colur er mwyn creu delwedd broffesiynol
Dim tyllau corff gweladwy
Modrwy briodas yn unig a ganiateir ei gwisgo yn yr ystafell colur.

Bydd disgwyl i chi brynu gwisg, colur a chitiau gwallt a thalu am deithiau fel amod o'ch lle ar y cwrs. Bydd y gost yn daladwy mewn dwy ran:

Mis Medi – Cit Colur 1 a Brwshys - £251,00, Gwisg - £45, Cit Trin Gwallt - £87.00

Mis Ionawr – Cit Colur 2 - £96.00

*Gall yr holl gostau newid